Cael trafferth darllen y cylchlythyr yma? Darllenwch ef yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 184 (Cymru) - 10 Mai 2017

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: y diweddaraf ar enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Ers Bwletin 180 ry'n ni wedi gwneud diweddariadau i'r pleidiau canlynol ar y gofrestr:

Absolute Action Party
Arts Party
Plaid Geidwadol ac Unoliaethol (noder: mae'r blaid hon wedi tynnu rhai disgrifiadau)
Chesterfield And North Derbyshire Independents (noder bod y blaid hon wedi tynnu rhai disgrifiadau)
The People's Revolution Party

Mae manylion llawn pa ddiwygiadau sydd wedi eu gwneud yn ein rhestr o'r penderfyniadau diweddar i gymeradwyo neu wrthod enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau y gwnaed ceisiadau amdanynt.

Yn ogystal, mae'r pleidiau canlynol wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr:
Reset Party
The Principles of Politics Party
Red Flag – Anti-Corruption

Wrth dderbyn enwebiadau, mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) wirio bod enw'r blaid neu unrhyw ddisgrifiad a roddir ar ffurflen enwebu, yn ogystal â'r arwyddlun y gofynnir amdano, wedi cofrestru ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol a bod y manylion a ddarperir yn cydweddu â'r cofrestriad. I sicrhau eich bod yn gweld y wybodaeth ddiweddaraf, efallai bydd angen i chi ddileu eich hanes pori neu adnewyddu'r dudalen. Os nad ydych yn siŵr sut i wneud hyn, dylai eich tîm TG fod yn gallu eich helpu chi.

Ffeil Zip arwyddluniau ac allforio disgrifiadau pleidiau
Mae ffeil Zip o ddelweddau arwyddluniau ar gael ar ein gwefan a chafodd ei diweddaru ar 31 Mawrth. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw ffeiliau Zip a lawrlwythwyd cyn y dyddiad yma o gwbl. Mae tudalen

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: y diweddaraf ar enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Y diweddaraf ar newidiadau i'r gofrestr o bleidiau gwleidyddol.

Diweddariad ymwybyddiaeth y cyhoedd Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017 - adnoddau cofrestru wythnos i fynd

Gwybodaeth ar a dolenni i'n hadnoddau a negeseuon 'wythnos i fynd' a 'cyfle olaf i gofrestru'.

Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: cynlluniau wrth gefn

Gwybodaeth ar gynlluniau wrth gefn ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU a gyda phwy ddylech gysylltu i'ch cefnogi i ddatblygu eich trefniadau lleol.

Etholiadau Mai 2017: adborth ar ôl yr etholiad

Gwybodaeth a dolen i arolwg ar etholiadau Mai 2017.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma.

manylion cofrestredig y Comisiwn hefyd yn cynnwys swyddogaeth sy'n caniatáu allforio rhestr o ddisgrifiadau plaid.

Er bod y ffeil Zip ac allforio disgrifiadau yn declyn y gellir ei ddefnyddio gan eich argraffwyr i baratoi papurau pleidleisio, y wybodaeth ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol ddylid ei ddefnyddio i gadarnhau pa arwyddlun a disgrifiadau i'w argraffu ar bapurau pleidleisio. **Dylech sicrhau felly eich bod chi a'ch argraffwyr yn lawrlwytho a defnyddio'r ffeil Zip ac allforio disgrifiadau wedi i enwebiadau gau.**

Gallwch hefyd danysgrifio i'n *cylchlythyr Gweinyddiaeth Etholiadol*.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Diweddariad ymwybyddiaeth y cyhoedd Etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017 - adnoddau cofrestru wythnos i fynd

Mae ein hadnoddau a negeseuon 'wythnos i fynd' a 'cyfle olaf i gofrestru' ar gael ar ein gwefan dybleidlaisdi.co.uk. Mae hefyd gyda ni rhai adnoddau templed i'r cyfryngau. Cofiwch eu rhannu gyda'ch tîm cyfathrebu er mwyn iddyn nhw eu rhannu gyda sianeli yn lleol.

etholiad cyffredinol Senedd y DU Mehefin 2017: cynlluniau wrth gefn

Mae nifer o ddigwyddiadau, sifil, gwladol ac yn seiliedig ar fygythiadau, allai effeithio ar fod yr etholiad yn cael ei redeg yn llyfn yn lleol a hefyd yn ehangach. Fel rhan o'ch cynllunio ar gyfer Etholiad Cyffredinol, dylech fod yn datblygu cynlluniau wrth gefn a threfniadau parhad busnes i sicrhau eich bod yn barod i ymateb i unrhyw faterion sy'n codi.

I gael cefnogaeth i asesu pa risgiau sifil (megis llifogydd, er enghraifft) allai effeithio ar y bleidlais a nodi pa gynlluniau wrth gefn sydd yn eu lle, dylech - os nad ydych eisoes - gysylltu gyda'ch fforwm hydwythedd lleol. Dyma'r cyrff sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau lleol ac argyfyngau catastroffig, sy'n gweithio i nodi risgiau posibl a chreu cynlluniau argyfwng i un ai cynllunio neu leihau effaith unrhyw ddigwyddiad ar eu cymunedau lleol. Yn ogystal â chynorthwyo gyda chynlluniau wrth gefn, gallant hefyd roi unrhyw rybudd defnyddiol ymlaen llaw o faterion sy'n effeithio eich ardal.

Mae manylion cyswllt ar gyfer eich ardal chi ar gael yma: https://www.gov.uk/cymru/guidance/local-resilience-forums-contact-details.

Mae canllawiau mwy cyffredinol i gynllunio ar gyfer yr etholiad, gan gynnwys datblygu cynlluniau wrth gefn, ar gawl yn Rhan B y canllawiau craidd i Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Etholiadau Mai 2017: adborth ar ôl yr etholiad

Hoffem glywed am eich profiadau o weinyddu etholiadau ym mis Mai i helpu hysbysu ein hadrodd ar ôl yr etholiad. Gallwch roi eich adborth drwy gwblhau ein harolwg.

Ry'n ni'n deall ei bod hi'n amser prysur iawn ac felly'r dyddiad cau ar gyfer darparu'r adborth yma yw **dydd Llun 26 Mehefin 2017**, ar ôl etholiad cyffredinol Senedd y DU. Bydd hefyd cyfle i chi roi

adborth ar etholiad cyffredinol Senedd y DU, er efallai yr hoffech gynnwys sut wnaeth cynllunio ar gyfer mis Mehefin effeithio ar eich gwaith yn cynllunio ar gyfer etholiadau mis Mai yn yr arolwg yma.

.....

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru

Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
Textphone: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk
© Y Comisiwn Etholiadol 2017